Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

Data cryno am coronafeirws (COVID-19) a'r ymateb iddo: 14 Ionawr 2021

Trosolwg o ystadegau coronafeirws a'r ymateb gan gynnwys y gefnogaeth a ddarparwyd hyd at 13 Ionawr 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 14 Ionawr 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 14 Ionawr 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-14-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cynnwys

1. Cadw pellter cymdeithasol

2. Y Gronfa Cymorth Dewisol

3. Cymorth i fusnesau

4. Cronfa Cadernid y Trydydd Sector

5. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

6. Manylion cyswllt

1. Cadw pellter cymdeithasol

Gostyngodd symudedd yn sylweddol ddiwedd mis Mawrth 2020, ond cynyddodd yn raddol tan yr haf. Mae symudedd wedi gostwng ers cyflwyno lefel rhybudd 4, yn enwedig dros wyliau'r Nadolig.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-14-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Newid mewn symudiadau o'r llinell sylfaen, cyfartaledd awdurdodau lleol Cymru (cyfartaledd treigl 7 diwrnod), 10 Mawrth i 8 Ionawr 2021 (a)



Ffynhonnell: Adroddiadau Symudedd Cymunedol COVID-19 Google

(a) Nid yw'r data ar gyfer y rhan fwyaf o gategorïau ar gael rhwng Awst 16 i Medi 17 2020 gan nad oedd y data ar gael ar gyfer nifer o rannau o Gymru (o dan y trothwy safon).

Nid yw'r data ar gyfer y rhan fwyaf o gategorïau ar gael rhwng Awst 16 i Medi 17 2020 gan nad oedd y data ar gael ar gyfer nifer o rannau o Gymru (o dan y trothwy safon).

Ffynhonnell: **Adroddiadau Symudedd Cymunedol COVID-19 Google**

Data ar: 8 Ionawr 2021

2. Y Gronfa Cymorth Dewisol

Rhwng 18 Mawrth 2020 a 7 Ionawr 2021 gwnaed 136,168 o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ymwneud â COVID-19, gwerth cyfanswm o £8.96 miliwn.

Dechreuwyd cofnodi ar 18 Mawrth 2020. Mae'r rhesymau cysylltiedig â

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-14-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

COVID-19 y mae ymgeiswyr yn eu rhoi yn cynnwys:

- gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau gwaith
- oedi o ran hawlio budd-dal
- costau ynni/bwyd uwch (teulu gartref)

Nifer ddyddiol o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng, hyd at 7 Ionawr 2021



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Nifer ddyddiol o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng (MS Excel)

Yn dilyn cyhoeddiad 1 Mai o fwy o gyllid, bydd ceisiadau'n cael eu trin â mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd, wrth ddelio â hawliadau caledi COVID-19. **Cefndir pellach i'r Cronfa Cymorth Dewisol.**

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Data ar: 7 Ionawr 2021

3. Cymorth i fusnesau

Ar 11 Ionawr 2021, mae trydydd cam y Gronfa Cadernid Economaidd wedi cynnig 56.2 mil o grantiau sef cyfanswm o £186.2 miliwn. Mae hyn yn cynnwys Grantiau Datblygu Busnes a'r Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-14-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Data ar: 12 Ionawr 2021

4. Cronfa Cadernid y Trydydd Sector

Yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau yn y trydydd sector sydd angen help i ymdopi â'r argyfwng hwn er mwyn talu eu biliau a lliniaru problemau llif arian.

Daeth Cam 1 o'r Gronfa Gwytnwch Trydydd Sector i ben ar gyfer ceisiadau newydd yn haf 2020. Ar 13 Ionawr 2021, mae 114 o geisiadau wedi'u cymeradwyo, ac mae £4.85 miliwn wedi'i dalu drwy Gam 1.

Mae Cam 2 o'r Gronfa Gwytnwch Trydydd Sector ar agor ar gyfer ceisiadau ar hyn o bryd. Ar 13 Ionawr 2021, mae 20 cais wedi'u cymeradwyo, ac mae £977.7 mil wedi'i dalu drwy Gam 2.

Ffynhonnell: Gwirfoddoli Cymru

Data ar: 13 Ionawr 2021

5. Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Cadw pellter cymdeithasol

Mae'r wybodaeth yn cael ei chreu gyda setiau data cyfanredol, dienw oddi wrth ddefnyddwyr sydd wedi galluogi'r gosodiad ar eu dyfeisiau symudol sy'n dangos eu lleoliad. Y gwerth canolrifol yw'r gwaelodlin, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr i 6 Chwefror 2020. Mae'r data yn dangos newidiadau sydd wedi'u dadansoddi yn ôl chwe maes: siopa a hamdden, parciau, archfarchnadoedd a fferyllfeydd, gweithleoedd, preswyl a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r data ar gael ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Defnyddir cyfartaledd o'r rhain i ddod o hyd i ffigur ar gyfer Cymru. Nid yw'r data yn cael eu pwysoli gan ystyried maint pob awdurdod

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-14-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

lleol, nid yw'r wybodaeth honno ar gael gan Google, yr un beth sy'n cael ei ddangos yw'r newid cymharol.

Adroddiadau symudedd cymunedol COVID-19

Y Gronfa Cymorth Dewisol

Mae data DAF yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru gan ein darparwr gwasanaeth Northgate Public Services (NPS). Data gweithredol yw'r data a dynnir o'u system TGCh yn ddyddiol. Nid yw'r data'n mynd drwy unrhyw brosesau dilysu ffurfiol ac felly nid yw'n cael ei gyhoeddi fel Ystadegyn Cenedlaethol.

Cronfa Cadernid y Trydydd Sector

Mae data Cronfa Ymateb Trydydd Sector yn monitro data a gymerwyd o'r gronfa ddata Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

6. Manylion cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **kas.covid19@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR: 14/2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.
Ewch i **https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-14-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Data cryno am coronafeirws (COVID-19) a'r ymateb iddo: 14 Ionawr 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-14-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/data-cryno-am-coronafeirws-covid-19-ar-ymateb-iddo-14-ionawr-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.